

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Iau, 10fed Hydref, 2024 at 2.00 pm

Councillors Present

County Councillor Jane Lucas (Chairman)
County Councillor Lisa Dymock, (Vice Chairman)

County Councillors: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas and John Crook

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Rachel Lewis, Rheolwr Polisi Cynllunio
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio

APOLOGIES: Dim

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oess unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o gyflwyniadau/sylwadau wedi dod i law ac na fyddai'n bosibl eu darllen yn uchel yn y cyfarfod oherwydd y nifer sylweddol. Dywedodd fod cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd mewn da o bryd cyn y cyfarfod wedi'u rhannu â'r Pwyllgor, yr Aelod Cabinet a swyddogion, ac y byddai unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd ers hynny, yn cael eu hanfon ymlaen at yr Aelod Cabinet a swyddogion i'w hystyried ymhellach.

Nododd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn 15 cyflwyniad ysgrifenedig yn gwrthwynebu safle CS0270 yn y cynllun, a dau arall yn gwrthwynebu tir yn Heol Mownton a thir i'r gorllewin o Frynbuga, Penperllenni. Siaradodd tri Aelod o'r cyhoedd yn y cyfarfod am CS0270 gan godi nifer o bryderon:

- Digonolrwydd seilwaith, sut y bydd cartrefi yn ddi-garbon pan nad yw'r datblygwr wedi ymrwymo iddo tan 2050, cynnydd posibl mewn gollyngiadau ffosffad sydd eisoes yn uwch na'r lefelau a ganiateir, cwestiynu a fydd digon o arian ar gael, gan ofyn pam na all y 270 o gartrefi gael eu hychwanegu at y Fenni, ac awgrymu ei fod yn rhy bell o ganol y dref ar gyfer cerdded neu feicio tra yn Y Fenni byddai'r cartrefi yn nes at yr orsaf drenau.
- Nodwyd fod CS0270 yn safle arbennig o ystyried ei harddwch a'i leoliad, ei bwysigrwydd i'r ystlumod pedol mwyaf, ei welededd o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'i agosrwydd at heneb gofrestredig, a gwrthwynebu colli tir amaethyddol o'r radd flaenaf – sy'n awgrymu Felly byddai CS0274 yn ddewis

amgen

gwell.

- Codwyd pryderon am allyriadau traffig a monitro ansawdd aer yn Nhrefynwy, gan awgrymu bod y fethodoleg bresennol yn ddiffygiol a bod diffyg data digonol ar allyriadau gwirioneddol neu ragamcanol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyhoedd am eu mewnbwn, drwy anfon cyflwyniadau ysgrifenedig a thrwy gyfrannu at y cyfarfod trwy'r Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

3. Cynllun Adnau y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA)

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths yr adroddiad - rhoddodd gyflwyniad, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau gyda Craig O'Connor. Yn ei gyflwyniad o'r adroddiad, cydnabu'r Cynghorydd Griffiths y canlynol:

- Tueddiadau Demograffig: Tynnodd sylw at y dirywiad mewn poblogaethau oedran ysgol ac oedran gweithio yn Sir Fynwy, yn cyferbynnu â'r twf yn y boblogaeth dros 65 oed, gan bwysleisio'r angen i wrthdroi'r tueddiadau hyn i gynnal cymunedau cynaliadwy.
- Tai a Fforddiadwyedd: Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gynyddu'r cyflenwad o dai, yn enwedig tai fforddiadwy, i gadw pobl ifanc yn y sir, gan amlygu na all 50% o'r boblogaeth fforddio prynu tai ar y farchnad agored, gan olygu bod angen lefel uchel o dai fforddiadwy yn y cynllun.
- Cynigion y Cynllun: Amlinellodd y cynllun i ddarparu 2000 o gartrefi newydd dros 15 mlynedd, gyda 50% yn dai fforddiadwy, gan egluro y byddai 660 o'r rhain yn dai cymdeithasol i'w rhentu, gyda 330 yn opsiynau perchentaeth cost isel.
- Tir Cyflogaeth: Trafododd y ddarpariaeth o 48 hectar o dir cyflogaeth i gefnogi twf swyddi a mynd i'r afael â'r diffyg tir ar gyfer ehangu busnes.
- Cynaliadwyedd a Seilwaith: Pwysleisiodd y bydd cartrefi newydd o fewn pellter cerdded i aneddiadau presennol, yn ddi-garbon net, ac yn cael eu cefnogi gan y seilwaith angenrheidiol.
- Gweledigaeth Gyffredinol: Eglurodd mai nod y cynllun yw creu cymunedau iau, mwy cynaliadwy drwy ddarparu tai priodol a chyfleoedd gwaith, tra'n gwarchod yr amgylchedd, a chefnogi canol trefi presennol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am gyflwyno'r adroddiad ac aeth ymlaen i dderbyn cwestiynau a phwyntiau allweddol gan y Pwyllgor, gydag atebion yn cael eu rhoi gan yr Aelod Cabinet a'r swyddogion.

Cwestiynau a phwyntiau allweddol a godwyd gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â safle ymgeisiol CSO270, beth fyddai effaith y mewnlifiad o drigolion yn deillio o'r safleoedd treigl o'r CDLI blaenorol o 280 o gartrefi, a sut y byddai hyn yn effeithio ar nifer y cerbydau ar y ffyrdd.

Fe'u hysbyswyd bod y tîm polisi cynllunio wedi adolygu'r safleoedd ac wedi ystyried yr effaith ar y seilwaith presennol a bod safle Heol Dixton wedi'i nodi fel yr opsiwn mwyaf priodol a chynaliadwy.

- Gofynnwyd a oedd y safle cyflogaeth ymgeisiol 5.8 hectar yn ddigon i ddarparu digon o gyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sy'n byw yn y cartrefi newydd, er mwyn i drigolion Trefynwy gyflawni'r maen prawf o fyw bywydau cynaliadwy. Mynegodd yr Aelod ei bryderon ynghylch gwaethygu tagfeydd ffyrdd ymhellach.

Fe'u hysbyswyd bod 4.5 hectar o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu ar safle Heol Wonastow, ac y dylai hyn greu swyddi o fewn yr ardal i gydbwysu'r tai.

- Gofynnodd Aelod sut mae Trefynwy yn gymwys fel datblygiad cynaliadwy o ystyried y diffyg difrifol mewn cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus

Fe'u hysbyswyd bod safle wedi'i ddyrannu i Drefynwy i gadw'r gymuned yn gynaliadwy a sicrhau demograffeg gytbwys. Cadarnhaodd hefyd fod y datrysiad ffosffadau strategol ar gyfer Trefynwy yn galluogi datblygu cynaliadwy.

- Gofynnodd Aelod pam nad yw'r strategaeth trafndiaeth leol wedi'i chynnwys yn y CDLIA a pham nad yw asesiadau trafndiaeth yn cael eu cynnal tan y cyfnod cynllunio.

Dyweddodd swyddogion fod ystyriaethau seilwaith yn rhan o'r broses gynllunio, a bod asesiadau trafndiaeth yn cael eu cynnal fel arfer yn ystod y cam cynllunio.

- Gofynnwyd pa brosesau y gellir eu rhoi ar waith i liniaru'r niwed posibl a achosir gan golli mannau gwyrdd ar ôl datblygu, a allai gynyddu dŵr ffo a dwysau llifogydd.

Fe'u cynghorwyd bod pob datblygiad yng Nghymru yn destun gofynion draenio cynaliadwy, sy'n golygu bod yn rhaid rheoli dŵr ffo o fewn y safle ei hun i atal llifogydd cynyddol.

- Holodd Aelod a fyddai'r 'polisi awyr dywyll' yn lliniaru'n ddigonol y niwed a achosir i'r ystlumod pedol mwyaf, wrth gymryd i ystyriaeth drefoli'r safle a cholli eu lleoliadau bwydo.

Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau bod ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys yr effaith ar fywyd gwyllt lleol, yn rhan o'r broses gynllunio ac y byddant yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

- Gofynnodd Aelod am berchnogaeth tir datblygiad arfaethedig Dwyrain y Fenni; yn benodol, os yw perchennog tir CS0293 wedi cytuno i'r prif gynllun, ac os yw'r tir sydd o fewn rheolaeth Cymdeithas Tai Trefynwy o fewn ei reolaeth. Mynegodd yr Aelod bryder ynghylch y gallu i gyflawni'r prif gynllun arfaethedig os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni.

Cadarnhaodd swyddogion fod y ddau dirfeddiannwr wedi cynnig eu safleoedd i'w datblygu, ond nid oedd y naill na'r llall wedi cytuno'n llawn i'r prif gynllun. Datblygir y prif gynlluniau yn seiliedig ar y fframwaith polisi cynllunio y mae'r Cyngor yn dymuno ei osod. Bydd trafodaethau a sgysiau manwl gyda'r holl bartneriaid yn parhau, er mwyn sicrhau bod y cynnig datblygu yn cael ei wireddu.

- Holodd Aelod a yw'r Cyngor yn fodlon defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol (CPO) fel egwyddor polisi i symud datblygiadau strategol allweddol yn eu blaenau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod ystod o gyfleoedd ar gael i'r Cyngor, ac y bydd y dull gweithredu yn bragmatig ac effeithiol, gyda chyd-drafod yn flaenoriaeth gyntaf.

- Holodd Aelod ynglŷn â'r niwed posib o drefoli ôl-ddatblygiad, yn benodol gerddi sydd wedi eu newid yn balmentydd, a oedd yn pryderi y gallai gynyddu dŵr ffo a dwysau llifogydd. Gofynnodd a ellid gwneud unrhyw beth i liniaru niwed posibl o'r fath

Ymatebodd swyddogion fod hwn yn bwynt dilys ac awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Cynllunio leihau hawliau datblygu a ganiateir ymhellach os oes tystiolaeth y byddai'n arwain at ddŵr ffo ychwanegol. Yn ogystal, bydd angen i unrhyw gais gyflwyno asesiad canlyniadau llifogydd yn ystod y cam cynllunio.

- Amlygodd Aelod yr angen i sicrhau cysylltiadau da ar gyfer y datblygiad mawr ar ochr ddwyreiniol y Fenni, a phwysleisiodd ei fod yn teimlo ei bod yn

bwysig cael cydbwysedd rhwng tai a thir cyflogaeth ar draws y Sir. Mynegwyd eu pryder ynghylch cerddwyr yn croesi'r AA465 a phwysleisiwyd yr angen i integreiddio seilwaith teithio yn y Fenni, gan ofyn am sicrwydd ynghylch cysylltiadau teithio os bydd datblygiad Dwyrain y Fenni yn mynd yn ei flaen.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod trafodaethau gyda'r datblygwr, y Comisiwn Dylunio, a'r Asiant Cefnffyrdd wedi nodi cynlluniau ar gyfer tri man croesi ar draws yr A465, wedi'u rheoli gan oleuadau, er mwyn sicrhau profiadau diogel i gerddwyr a gyrwyr. Eglurodd y byddai'r seilwaith yn anelu at sicrhau bod trigolion yn teimlo'n gyfforddus yn croesi'r ffordd ac yn integreiddio'r datblygiad newydd gyda'r dref.

- Mynegwyd pryder gan Aelod am y bylchau seilwaith sylweddol mewn ardaloedd fel Trefynwy, Cil-y-coed, a Chas-gwent, yn enwedig o ran trafndiaeth, gofal iechyd ac addysg. Gofynnwyd sut y byddai'r cynllun yn sicrhau na fyddai cymunedau o dan fwy o straen fyth o ran gwasanaethau hanfodol. Mynegwyd pryderon ganddynt hefyd ynghylch ymarferoldeb cerdded a beicio ar gyfer cyplau sy'n gweithio a theuluoedd ifanc a'u barn bod diffyg ymrwymadau ac amserlenni clir ar gyfer gwella'r seilwaith.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a swyddogion fod y CDLIA yn ddogfen lefel uchel a dywedodd y bydd ceisiadau cynllunio manwl yn dilyn ar gyfer pob safle. Roeddent yn pwysleisio bod cysylltiadau teithio llesol yn cael eu hintegreiddio o'r camau cynnar i annog cerdded a beicio. Dywedasant hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i bwysau gofal iechyd a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau datblygiad cytbwys ar draws y Sir.

- Ategodd Aelod arall ei bryderon am y diffyg seilwaith gan nodi bod angen cynllunio manwl i gefnogi'r datblygiadau arfaethedig.

Bu'r Aelod Cabinet a swyddogion yn trafod y cynllun cyflawni seilwaith, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer trafndiaeth, addysg, a chyfleusterau gofal iechyd i gefnogi'r datblygiadau newydd

- Cwestiynodd Aelod hyfywedd y CDLIA heb ddatganiad hyfywedd manwl, yn enwedig ar gyfer safleoedd mawr. Gofynnwyd sut y byddai 50% o dai fforddiadwy a chartrefi parod di-garbon net yn cael eu cyflawni.

Eglurodd swyddogion fod y CDLIA yn dyrannu tir i'w ddatblygu, a bod gan y Cyngor strategaethau eraill i ddenu busnesau a chreu swyddi. Er enghraifft, nod y strategaeth economaidd yw creu cymysgedd o gyfleoedd gwaith, gan gynnwys swyddi gwerth uchel. Cadarnhaodd y swyddog fod hyfywedd 50% o dai fforddiadwy wedi'i asesu a'i fod wedi'i ystyried yn gyraeddadwy.

- Cwestiynwyd pam fod Dwyrain Cil-y-coed/Porthsgiwed yn cael ei adnabod ar gyfer cyfran sylweddol o anghenion tai'r sir a beth oedd y rhesymeg dros ganolbwyntio datblygiad mewn ardal sydd eisoes yn brin o amwynderau. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Ymatebodd swyddogion bod Cil-y-coed yn cael ei ystyried yn lle cynaliadwy ar gyfer datblygu oherwydd ei fwynderau a'i gysylltiadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y datblygiad yn cynnwys ysgol gynradd newydd a chysylltiadau teithio llesol i sicrhau cynaliadwyedd. Cadarnhaodd swyddogion fod y Cyngor yn gweithio i sicrhau bod seilwaith ac amwynderau yn eu lle i gefnogi'r datblygiad newydd.

- Gofynnodd Aelod am eglurder ar raddfa tir ar gyfer y tir cyflogaeth i'r gogledd o safle Porthsgiwed a mynegodd bryder a oedd ffermwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses, gan amlygu ffermwr nad oedd yn ymwybodol o'r cynigion.

Cydnabu'r swyddogion yr angen i ymgysylltu â'r holl dirfeddianwyr a ffermwyr ac addawodd y byddent yn mynd ar drywydd yr achos penodol a grybwyllwyd, gan ailadrodd bod y Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn y broses.

- Mynegodd Aelod bryderon am y tagfeydd traffig ar Gylchfan High Beech mewn perthynas â safle Mountain Road ac awgrymodd y dylai safleoedd yng Nghas-gwent fod yn amodol ar welliannau i gylchfan High Beech. Mynegodd yr Aelod bryder bod cyn lleied o gyfeiriadau at seilwaith ffyrdd ym mhrif ran yr adroddiad a thynnodd sylw at yr angen am ofynion safle-benodol ar gyfer gwelliannau seilwaith ffyrdd, yn debyg i'r rhai mewn cynlluniau blaenorol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a swyddogion fod Cylchfan High Beech yn rhan o rwydwaith cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, a bod gwelliannau'n cael eu hystyried drwy astudiaeth gan Lywodraeth Cymru. Dywedasant fod y CDLIA yn cynnwys diogelu tir ar gyfer gwelliannau posibl a chadarnhawyd y bydd y datblygiad yn cynnwys mesurau lliniaru angenrheidiol wrth iddynt gael eu nodi.

- Gofynnwyd a oedd y 26 o dai ar safle Drenewydd Gelli-farch yn ychwanegol at yr 11 tŷ a gynlluniwyd yn flaenorol yn Clearview Court a sut yr eir i'r afael â phryderon am gapasiti carthffosiaeth yn yr ardal.

Eglurodd swyddogion fod y ffin ddatblygu wedi newid, ac mai'r 26 o dai yw'r dynodiad newydd, gyda'r 11 tŷ blaenorol heb eu cynnwys bellach. Roeddent yn cydnabod y materion carthffosiaeth presennol ac yn dawel eu meddwl eu bod wedi ymrwymo i weithio gyda Dŵr Cymru a CNC i fynd i'r afael â hwy.

- Pwysleisiodd Aelod yr angen i dai fforddiadwy fod ar gael i bobl leol yn ardal Drenewydd Gelli-farch ac awgrymodd gymysgedd o feintiau tai, gan gynnwys cartrefi tair ystafell wely, ar gyfer teuluoedd ifanc.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cytuno ar bwysigrwydd cymysgedd tai a chadarnhawyd y byddai'r broses ddyrannu yn blaenoriaethu anghenion lleol. Dywedodd fod y fframwaith polisi yn anelu at ddarparu amrywiaeth o opsiynau tai, gan gynnwys eiddo dwy, tair ac un ystafell wely, i ddiwallu anghenion y gymuned.

- Holwyd sut y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y CDLIA yn sicrhau bod lleisiau'r bobl y bwriedir iddynt elwa o'r cynllun yn cael eu clywed, yn enwedig pobl o oedran gweithio a'r rhai â phlant ifanc. Pwysleisiwyd ganddynt yr angen i ymgysylltu'n effeithiol â'r grŵp hwn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet y bydd y broses ymgynghori yn cynnwys arddangosfeydd, ymgynghoriadau ar-lein, cyfarfodydd cyhoeddus, a chyfleoedd galw heibio ym mhob ardal boblogaeth. Gwneir ymdrechion i hysbysebu'r digwyddiadau hyn yn eang, gan gynnwys defnyddio gazebos ar y Stryd Fawr i gynyddu gwelededd. Tynnodd sylw hefyd at rôl Cyngorwyr lleol wrth annog ymgysylltiad cymunedol a sicrhau cynrychiolaeth gytbwys o safbwyntiau.

- Gofynnodd Aelod am sicrwydd y bydd y CDLIA yn gwarchod y Nedern a'r lefelau byw, gan bwysleisio pwysigrwydd amgylcheddol yr ardaloedd hyn a'r angen i gydbwysu datblygiad tai gyda gwarchod yr amgylchedd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet wrth y Pwyllgor fod Nedern a'r tir gwyrdd o amgylch y castell nid yn unig yn cael eu hamddiffyn ond yn cael eu dathlu yn y cynllun. Pwysleisiodd fod yr ardaloedd hyn yn cael eu gweld fel asedau a fydd yn cysylltu'r dref bresennol gyda'r datblygiad newydd, gan sicrhau eu gwarchodaeth a'u hintegreiddio i'r gymuned.

- Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch cael gwared ar gynefinoedd mewn perthynas â CS0270, a'r honiad y byddai byffer yn ei wella, a mynegodd bryder ynghylch y tir o'r ansawdd gorau sy'n cael ei ddileu.

Ymatebodd swyddogion, gan ddweud er y bydd datblygiad yn arwain at golli rhywfaint o dir amaethyddol, mae'r cynllun yn cynnwys mesurau i wella gweddill y cynefinoedd, yn unol â gofynion polisi cynllunio.

- Mynegwyd pryderon am faterion tagfeydd traffig ar y safle arfaethedig, o styried y cynnydd mewn ceir, yn ogystal â llygredd, a gofynnwyd sut y gall yr

allanfa i Heol Henffordd gymhwyso fel allanfa frys. Holodd Aelod a oedd unrhyw sicrwydd na fydd y safle'n tyfu ymhellach.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a swyddogion, gan drafod y gofynion seilwaith, gan gynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith bysiau lleol a diogelu tir ar gyfer gwelliannau ffyrdd posibl. Cadarnhawyd y bydd asesiadau trafndiaeth manwl yn cael eu cynnal ar y cam cais cynllunio. Cydnabu'r Aelod Cabinet bwysigrwydd mynd i'r afael â llygredd a soniodd y byddai tîm iechyd yr amgylchedd yn adolygu'r pryderon a godwyd ynghylch ansawdd aer

- Cwestiynodd Aelod arall y posibilrwydd o ymestyn y cyfnod ymgynghori.

Eglurodd yr Aelod Cabinet fod yna amrywiol ddulliau ymgysylltu ar gyfer y broses ymgynghori, a phwysleisiodd rôl Cynghorwyr lleol wrth annog cyfranogiad cymunedol.

- Holwyd a oes modd ystyried y tai fforddiadwy mewn gwirionedd fel rhai 'fforddiadwy' ac a fyddai effaith ddilynol ar yr arian Adran 106 sy'n gysylltiedig â datblygiadau.

Esboniodd swyddogion y bydd asesiadau hyfywedd yn sicrhau bod y targed tai fforddiadwy o 50% yn gyraeddadwy ac y bydd y cymysgedd o rent cymdeithasol, rhanberchenogaeth, ac opsiynau tai marchnad yn mynd i'r afael â fforddiadwyedd. Aeth yr Aelod Cabinet Griffiths i'r afael â phryderon ynghylch fforddiadwyedd tai, gan egluro bod y cynigion yn seiliedig ar yr asesiad o anghenion tai lleol. Pwysleisiodd fod 50% o'r boblogaeth yn gallu fforddio tai'r farchnad agored, 17% yn gallu fforddio perchentyaeth cost isel neu rannu ecwiti, a byddai angen rhent cymdeithasol ar y gweddill. Soniodd hefyd fod eiddo ecwiti a rennir yn dychwelyd i'r Cyngor neu'r landlord cymdeithasol ar y pwynt gwerthu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Ceisiodd yr Aelod Cabinet hefyd roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y symiau sy'n ofynnol ar gyfer cyfraniadau Adran 106 yn y dyfodol yn debyg i'r rhai a gyflawnwyd yn y gorffennol, gan ddangos na fydd y straen ar dai fforddiadwy a di-garbon yn gwasgu cyllid ar gyfer seilwaith angenrheidiol.

Sylwadau Ychwanegol gan Aelodau

- Mynegodd Aelod bryder ynglŷn â gwelededd y safle o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r effaith ar yr olygfa wrth ddod i mewn i Drefynwy.
- Pwysleisiodd Aelod arall yr angen i annog mwy o bobl o oedran gweithio a chadw pobl iau yn y sir.
- Holwyd hefyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r risg y byddai Sir Fynwy yn dod yn fwy o barth cymudo nag y mae eisoes.

Crynodeb y Cadeirydd:

Fel rhan o'r crynodeb, tynnodd y Cadeirydd sylw at y pwyntiau allweddol a'r materion a godwyd gan Aelodau yn ystod y ddatl:

- Pryderon am deithio llesol a thwf traffig.
- Pryderon am draffig cymudo oherwydd swyddi cyflog uwch y tu allan i'r ardal.
- Pryderon am amwynderau yn ward Porthsgiwed.
- Pryderon am y seilwaith gofal iechyd ym mhob maes.
- Diffyg cysylltiadau teithio â Threfynwy.
- Pryderon am dagfeydd traffig ar safle Ffordd Mounon.
- Rhai pryderon am allyriadau ceir a llygredd, Aelodau'n pwysleisio'r angen i warchod tiroedd Nedern a'r Castell.
- Polisi awyr dywyll a phryderon cynefinoedd ystlumod.
- Yr angen i gydbwyso datblygiad gyda diogelu'r amgylchedd.
- Pryderon am y problemau carthion yn ardal Nant Mounon.
- Yr angen am dai fforddiadwy i bobl leol a meintiau tai priodol ar gyfer teuluoedd sy'n tyfu, yn enwedig pwysigrwydd tai i bobl iau.
- Cwestiynau ynghylch datblygiad Dwyrain y Fenni, pryderon yn arbennig yn ymwneud â thrafnidiaeth a theithio llesol, yr uwchgynllun, perchnogaeth tir, ac ystyriaethau prynu gorfodol.
- Sicrhau bod lleisiau lleol yn cael eu clywed ac ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol.

Cydnabu'r Cadeirydd y mewnbwn cyhoeddus sylweddol i'r cyfarfod, o ran siaradwyr a chyflwyniadau ysgrifenedig, a dywedodd y byddai'r holl gyflwyniadau ysgrifenedig yn cael eu hanfon ymlaen at yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar ôl y cyfarfod i'w hystyried yn barhaus.

Diolchwyd i'r cyhoedd am eu mewnbwn ac eglurodd y Cadeirydd nad yw'r Pwyllgor Craffu Lleoedd yn gallu gwneud penderfyniadau, ond ar ôl craffu ar Gynllun Adnau'r CDLIA byddai'n cynnig ei adborth i'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion, ynghylch a yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynllun yn ei ffurf bresennol.

Cafwyd pleidlais, gyda phedwar Aelod o'r pwyllgor yn datgan nad oeddent o blaid y cynllun yn ei ffurf bresennol a phedwar Aelod yn cefnogi'r cynllun yn ei ffurf bresennol (1 Aelod wedi gadael yn gynnar).

4. Blaenraglen Gwaith a Rhestr Gweithredu y Pwyllgor Craffu Lleoedd

Nodwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a byddai'r amserlenni ar gyfer yr Adolygiad Parcio yn cael eu hegluro.

5. Blaengynllun y Cabinet a'r Cyngor

Nodwyd y cynllun.

6. Cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol:

- 11eg Gorffennaf 2024
- 24ain Gorffennaf 2024 (Arbennig)
- 3ydd Medi 2024 (Arbennig)

Cadarnhawyd y cofnodion - cynigiwyd gan y Cynghorydd Lucas ac eiliwyd gan y Cynghorydd Wright.

7. Cyfarfod Nesaf: 7 Tachwedd 2024

Cadarnhawyd fel 7fed Tachwedd 2024

The meeting ended at **5.08 pm**